***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, RHAN 7. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 1

## YMGORFFORI SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## **RHAN 7**

## RHEOLAU GWEITHDREFNOL

*Cyffredinol*

27 Rhaid i SAC wneud rheolau at ddibenion rheoleiddio gweithdrefnau SAC.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 27 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** Atod. 1 para. 27 mewn grym ar 4.7.2013 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 2(u)(xiii)**

*Cworwm ar gyfer cyfarfodydd SAC*

28 (1) Rhaid i'r rheolau ddarparu am gworwm ar gyfer unrhyw gyfarfodydd SAC (gan gynnwys cyfarfodydd pwyllgorau neu is-bwyllgorau a sefydlir o dan baragraff 29).

(2) Caiff y rheolau ddarparu bod cworymau gwahanol yn gymwys i amgylchiadau gwahanol (er enghraifft, mewn perthynas â chyfarfodydd penodol neu at ddibenion penodol).

(3) Rhaid i'r rheolau ddarparu na ellir bodloni cworwm ar unrhyw adeg oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 1 para. 28 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I4** Atod. 1 para. 28 mewn grym ar 4.7.2013 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 2(u)(xiv)**

*Pwyllgorau*

29 (1) Caiff y rheolau gynnwys—

(a) darpariaeth ar gyfer sefydlu pwyllgorau SAC, ac i'r pwyllgorau hynny sefydlu is-bwyllgorau, a

(b) darpariaeth i reoleiddio gweithdrefnau'r pwyllgorau a'r is-bwyllgorau hynny.

(2) Caiff cyflogai i SAC nad yw'n aelod sy'n gyflogai fod yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor.

(3) Caiff person nad yw'n aelod o SAC nac yn gyflogai i SAC fod yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor, ar yr amod nad oes dim un o swyddogaethau SAC yn cael ei dirprwyo i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor (gweler paragraff 32).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 1 para. 29 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I6** Atod. 1 para. 29(1) mewn grym ar 4.7.2013 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 2(u)(xv)**

**I7** Atod. 1 para. 29(2)(3) mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)**

*Cynnal pleidleisiau*

30 Rhaid i'r rheolau gynnwys darpariaeth ynghylch cynnal pleidleisiau at ddiben penodi aelodau sy'n gyflogeion (gweler paragraff 16).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Atod. 1 para. 30 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I9** Atod. 1 para. 30 mewn grym ar 4.7.2013 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 2(u)(xvi)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, RHAN 7.